DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 25 HYDREF 2018 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 25 OCTOBER 2018, |

Fe'ch gwysir i fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, Heol Gerddi'r Orsedd, Caerdydd, CF10 3ND ar Dydd Iau, 25 Hydref 2018 am 4.30 pm i drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

Davina Fiore

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

17 Hydref 2018

Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch at eraill   Gwrthrychedd a priodoldeb   Anhunaoldeb a stiwardiaeth
Uniondeb   Dyletswydd i gynnal y gyfraith   Atebolrwydd a bod yn agored

## GWE-DARLLEDU

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd

| *Eitem* | | *Tua Amser* | *Max Amser* |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>*Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.* | 4.30 pm | 5 mun |
| **2** | **Datgan Buddiannau**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau).* | | |
| **3** | **Cofnodion** *(Tudalennau 7 - 32)*<br><br>*Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2018 fel cofnod cywir.* | | |
| **4** | **Cwestiynau Cyhoeddus** *(Tudalennau 33 - 38)*<br><br>*Derbyn cwestiynau yr hysbyswyd amdanynt ymlaen llaw gan Aelodau'r Cyhoedd.* | 4.35 pm | 15 mun |
| **5** | **Deisebau**<br><br>*Derbyn deisebau gan Aelodau Etholedig i'r Cyngor.* | 4.50 pm | 5 mun |
| **6** | **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**<br><br>*Derbyn cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau.* | 4.55 pm | 5 mun |
| **7** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2017/18** *(Tudalennau 39 - 60)*<br><br>*Derbyn yr Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Mr Ian Arundale.* | 5.00 pm | 20 mun |
| **8** | **Adroddiad Llesiant Blynyddol Statudol 2017-18** *(Tudalennau 61 - 146)*<br><br>*Derbyn a chymeradwyo Cynigion y Cabinet* | 5.20 pm | 40 mun |
| **9** | **Datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelod Cabinet** *(Tudalennau 147 - 174)*<br><br>*Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet* | 6.00 pm | 45 mun |
| | **Egwyl** | | |

Trwy dderbyn y Pecyn Agenda hwn yn electronig, rydych wedi arbed yr Awdurdod tua. **£5.46** mewn costau argraffu

**Hysbysiad o Gynnig**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **10** | **Cynnig 1**<br><br>Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Philippa Hill-John<br><br>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Joel Williams<br><br>O ystyried yr effaith fawr a gaiff proses y CDLl ar y ddinas dros y 10 mlynedd nesaf, rydym yn galw ar y cyngor hwn i ystyried a chymeradwyo'r cynnig fel a ganlyn:<br><br>• Dylai'r Adroddiad Monitro CDLl blynyddol ddod gerbron y cyngor llawn i'w ystyried a'i adolygu. Dylai fanylu ar y cynnydd yn erbyn y targedau a osodwyd, y tai a werthwyd ac a yw'r trothwyon ar gyfer y mesurau seilwaith allweddol yn cael eu cyrraedd; a<br><br>• Dylid mabwysiadu a gweithredu strategaeth gyfathrebu drosfwaol fel modd o roi gwybod i breswylwyr am gamau allweddol y CDLl, gan gynnwys pwynt gwybodaeth canolog i sicrhau tryloywder ac eglurder; a<br><br>• dylid neilltuo swyddog penodol i gydgysylltu a goruchwylio proses gyfan y CDLl ar gyfer y ddinas a dylai fod ar gael i gysylltu ag aelodau etholedig a chyrff cynrychioliadol; a<br><br>• dylid cynnal adolygiad ar unwaith i sicrhau bod cyfran o'r cartrefi newydd sy'n cael eu hadeiladu yn diwallu anghenion y boblogaeth hŷn sy'n cynyddu a bod polisïau ar waith i sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael i'w prynu yn ogystal â'u rhentu; a<br><br>• dylid cynnwys adnewyddu'r lletem las yng Ngogledd a Gogledd-orllewin Caerdydd, a fydd yn dod i ben gyda'r LDP yn 2026; neu ddarparu llain las lawn newydd ar gyfer yr ardal hon, mewn unrhyw system gynllunio ranbarthol newydd er mwyn sicrhau bod y cefndir pwysig hwn yn cael ei gadw ym mhrifddinas Cymru am genedlaethau i ddod. | 7.05 pm | 30 mun |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **11** | **Cynnig 2**<br><br>Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Saeed Ebrahim<br><br>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Lee Bridgeman<br><br>Mae'r cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i archwilio sut orau y gall gefnogi'r unigolion hynny a'u teuluoedd a ymsefydlodd yng Nghaerdydd yn ystod y 1950au a'r 1960au a ddaeth yn adnabyddus fel y genhedlaeth Windrush, er mwyn iddynt gael yr un cyfleoedd â dinasyddion eraill Caerdydd o ran mynediad at y gwasanaethau a'r cyngor a ddarperir gan y Cyngor. | 7.35 pm | 30 mun |
| **12** | **Cwestiynau Llafar**<br><br>*Cwestiynau ar lafar i'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet; Cadeiryddion y Pwyllgor a/neu Aelodau enwebedig o'r Awdurdod Tân.* | 8.05 pm | 60 mun |
| **13** | **Materion Brys** | 9.05 pm | 5 mun |
| **Materion y Cyngor nas Gwrthwynebir** | | | |
| **14** | **Penodiadau Pwyllgor** *(Tudalennau 175 - 176)*<br><br>*Adroddiad Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Cyfreithiol* | 9.10 pm | 5 mun |
| **15** | **Cwestiynau Ysgrifenedig**<br><br>*Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.* | | |